# Defnyddio Rhif Unigryw'r Dysgwr (ULN) yn y Ddarpariaeth Ddysgu ar gyfer Myfyrwyr Ôl -16 ac Oedolion

Gwybodaeth ar gyfer Darparwyr dysgu Ôl -16: colegau AB, Darparwyr Hyfforddiant, Sefydliadau Addysg Uwch, Darparwyr Dysgu Oedolion a'r Gymuned, Cwmnïau Preifat a Sefydliadau Gwirfoddol.

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk



Mae dysgu yn newid

978 0 7504 6023 1
Ebrill 2011

# Canllaw Gam wrth Gam i'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu

## Cam 1

### Cofrestru fel Corff Cofrestru Dysgwyr (LRB)

1. Cael Cyfeirnod Darparwr y DU (UKPRN) oddi ar y Gofrestr Darparwyr Dysgu www.ukrlp.co.uk
2. Enwebu Defnyddiwr Uwch ar gyfer Cofrestr Dysgwyr (LR) yr LRS
3. Lawrlwytho a llenwi dwy ddogfen: Ffurflen Cofrestru Sefydliad a'r Cytundeb Darparwyr Dysgu www.learningrecordsservice.org.uk
4. Anfon y ddwy ddogfen ar ôl eu llenwi at yr LRS i gael eu prosesu (sganio ac e-bostio/ffacsio/postio)
5. Cytuno i delerau ac amodau'r Cytundeb Defnyddwyr sydd ar gael ar wefan yr LRS www.learningrecordsservice.org.uk

## Cam 2

### Cael mynediad i'r Gwasanaeth LRB

1. Yr Uwch Ddefnyddiwr yn derbyn enw a chyfrinair oddi wrth yr LRS sy'n ei alluogi i gael mynediad i Borth y Gofrestr Dysgwyr (LR)
2. Sefydlu trefniadau Rheoli a Threfnu Data ar gyfer defnyddio'r Gwasanaeth
3. Yr Uwch Ddefnyddiwr yn aseinio a rheoli cyfrifon defnyddwyr ychwanegol
4. Pob Defnyddiwr yn derbyn telerau ac amodau'r Cytundeb Defnyddwyr
5. Defnyddwyr a aseiniwyd yn cael lefelau mynediad priodol i borth diogel yr LR

## Cam 3

### Sefydlu Prosesau a Defnyddio'r Gwasanaeth

1. Rhaid i bob dysgwr gael gweld Hysbysiad Preifatrwydd a rhaid cofnodi pob dewis i beidio rhannu data PLR
2. Dylid gwirio hunaniaeth y Dysgwyr a chofnodi pa ddull o ID a ddefnyddiwyd Nodyn: Nid yw hyn yn berthnasol i ysgolion
3. Troi at ganllawiau LRS a chytuno ar sut i adalw gwybodaeth sydd ar gael yn barod ac aseinio ULNs o'r newydd o fewn eich sefydliad
4. Ystyried sut y gellir delio ag 'eithriadau' yn fwyaf effeithiol a sefydlu systemau priodol
5. Rhoi gwybod i reolwyr, staff dysgu, gweinyddwyr a dysgwyr am yr ULN



## Sut mae dysgu yn newid

Fel canlyniad i Raglen Ddiwygio Cymwysterau Galwedigaethol y DU (UK VQRP), mae cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau sy'n seiliedig ar waith yng Nghymru wedi newid i gwrdd yn well ag anghenion cyflogwyr a dysgwyr. Mae gan bob cymhwyster galwedigaethol a'u hunedau lefel a gwerth credyd sydd yn galluogi'r dysgu i fod yn fwy hyblyg.

Yn ychwanegol at ddiwygio cymwysterau galwedigaethol, mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn gofyn am well systemau gweinyddu er mwyn crynhoi a chofnodi cyflawniad neu gyrhaeddiad pob dysgwr. Mae cyflwyno rhif unigryw ar gyfer dysgwyr yn hanfodol er mwyn cydgrynhoi'r gwahanol gydrannau.

Mae'r Rhif Unigryw'r Dysgwr (ULN) yn cael ei gyflwyno yng Nghymru gan yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (DCELLS). Mae'r ULN yn tanategu Cymhwyster Bagloriaeth Cymru a'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (QCF), sy'n rhan o'r sefydliad ehangach Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW).

Gan DCELLS y gwneir y cais am gynnwys ULN mewn adroddiad Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) sydd ar gyfer pob darparwr Dysgu Seiliedig ar Waith o fis Medi 2011 ymlaen. Er nad yw'r ULN wedi'i orchymyn ar gyfer unrhyw ddarpariaeth arall, bydd sefydliadau dyfarnu yn gofyn fwy fwy am yr ULN ar gyfer dibenion cofrestru.

## Beth yw'r Rhif Unigryw'r Dysgwr? Pam ei fod yn bwysig?


Rhif 10 digid unigryw yw'r Rhif Unigryw'r Dysgwr (ULN) a roddir i ddysgwyr 14 oed a hŷn yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon gan y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu (LRS). Bydd yr ULN yn aros gyda'r dysgwr gydol ei oes a bydd yn gyswllt rhwng pob dysgu, pa le bynnag fydd y lleoliad. Gellir meddwl amdano fel y cyfwerth addysgol i'r rhif Yswiriant Gwladol (NI).

Unig ddiben y rhif Yswiriant Gwladol yw ar gyfer defnydd yr Adran Gwaith a Phensiynau ohono ac ni all y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu ei ddefnyddio fel dynodwr neu adnabyddwr.

Cynlluniwyd yr ULN fel y bydd llai o waith gweinyddol wrth gofrestru neu ymrestru dysgwyr ar gyfer cwrs, yn enwedig wrth iddynt symud ymlaen o'r ysgol at ddysgu ôl-16, addysg bellach a thu hwnt i hynny at addysg uwch.

Bydd Cofnod Dysgu Personol (PLR) yn cael ei greu ar gyfer pob dysgwr fydd ag ULN ganddo. Ffeil ar-lein yw'r Cofnod Dysgu Personol, fydd, dros amser, yn datblygu i fod yn gofnod gydol oes o gymwysterau a chyraeddiadau dysgu. Bydd yn galluogi pob dysgwr yng Nghymru i gael mynediad diogel at ei Gofnod Dysgu Personol ac edrych arno dros y rhyngrwyd ar wefan Gyrfa Cymru (www.careerswales.com) unwaith y bydd wedi cyrraedd yr oedran 16 oed a hŷn (yn amodol ar fod ei hunaniaeth wedi'i wirio ymlaen llaw).

**Bydd yr ULN a'r Cofnod Dysgu Personol yn cynorthwyo dysgwyr drwy eu dysgu gydol oes, wrth iddynt fynd am gyngor neu arweiniad ar yrfaoedd ac ymgeisio am swyddi.**





Bydd dau olwg gwahanol o'r Cofnod Dysgu Personol yn cael eu darparu – y cofnod llawn a golwg gyfyngedig - i sicrhau bod y dysgwr yn gwbl ymwybodol o'r hyn y bydd defnyddwyr eraill yn ei weld. Bydd pob dysgwr yn cael penderfynu pwy all gael mynediad at ei Gofnod Dysgu Personol a gall rannu'r wybodaeth yn llawn gyda darparwyr dysgu, cynghorwyr ar yrfaoedd a thrydydd partïon os bydd yn dymuno gwneud hynny. Bydd y golwg cyfyngedig ar gael i sefydliadau a enwebir gan y dysgwr (megis cyflogwyr posibl) ac ni fydd yn dangos ond y cyraeddiadau y bydd y dysgwr yn eu dewis a bydd wedi'i gyfyngu i ddangos manylion sylfaenol yn unig.

Ni fydd y Cofnod Dysgu Personol yn cynnwys unrhyw wybodaeth 'gyd-destunol' megis cefndir economaidd-gymdeithasol, ethnigrwydd neu anabledd, na manylion gwaharddiadau neu unrhyw ddiarddeliadau o'r system addysg. Mae mesurau diogelwch ychwanegol yn eu lle ar gyfer dysgwyr bregus a'r rhai sydd mewn sefydliadau i droseddwyr. (Am fwy o wybodaeth ar y defnydd o 'destun gwaharddedig' ewch i wefan yr LRS. Ceir y cyfeiriad ar ddiwedd y daflen hon).

Gall dysgwyr ddewis peidio â rhannu data am eu cyfranogiad a'u cyrhaeddiad. Mae cyfrifoldeb ar ddarparwyr dysgu i roi'r dewis i ddysgwyr o beidio bod yn rhan o'r system i ddysgwyr. Fodd bynnag, mae'r ULN bellach yn rhan o sawl cymhwyster – megis y QCF – felly mae'n bosibl y bydd peidio bod yn rhan o'r system yn cyfyngu ar y broses o weinyddu'r cymwysterau hyn.

## Cofrestru eich ysgol gyda'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu

Bydd yn rhaid i bob ysgol, coleg a phrifysgol a phob darparwr dysgu a hyfforddiant yn Nghymru gofrestru gyda'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu (LRS) fel Corff Cofrestru Dysgwyr (LRB) fel eu bod yn cael mynediad i borth Sefydliad Cofrestr Dysgwyr yr LRS.

Rhaid i bob LRB gael Cyfeirnod Darparwr y DU (UKPRN) ac, fel cam cyntaf, dylech sicrhau bod manylion mwyaf cyfredol eich sefydliad yn cael eu cynnwys yng Nghofrestr y Darparwyr yn www.ukrlp.co.uk

Bydd cofrestru yn golygu lawrlwytho ***dwy*** ddogfen oddi ar wefan yr LRS – Ffurflen Cofrestru Sefydliad a Chytundeb Darparwyr Dysgu – a bydd rhaid i aelod o staff ar lefel uwch eu llenwi a'u llofnodi. Unwaith y byddant wedi'u cwblhau, dylid eu hanfon drwy sgan/e-bost, post neu ffacs at yr LRS er mwyn eu cymeradwyo.

Unwaith y byddant wedi'u gwirio a'u derbyn, bydd yr LRS yn gosod eich cyfrif sefydliad ar y Gofrestr Dysgwyr. Bydd yr 'Uwch Ddefnyddiwr' a enwebir (yr uwch ddefnyddiwr yn eich sefydliad) yn derbyn enw defnyddiwr a chyfrinair i alluogi'r sefydliad i gael mynediad i borth diogel y Sefydliad Cofrestru Dysgwyr a gellir sefydlu defnyddwyr eraill ar y system wedyn.

## Beth yw cyfrifoldebau Uwch Ddefnyddwyr?

Bydd Uwch Ddefnyddiwr y Gofrestr Dysgwyr yn gyfrifol am reoli pob defnyddiwr o fewn LRB, gan gynnwys sefydlu Uwch Ddefnyddwyr eraill a dileu defnyddwyr. Y rhain hefyd yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer datrys problemau mynediad ac ailosod cyfrineiriau ar gyfer defnyddwyr eraill. Argymhellir y dylai fod gan LRB o leiaf dri Uwch Ddefnyddiwr.

Bydd raid i LRBs sefydlu trefniadau rheoli ar gyfer gweithredu'r Gofrestr Dysgwyr a sicrhau bod y trefniadau priodol ar gyfer trefnu data yn eu lle.

Am fwy o wybodaeth trowch at Ganllaw Defnyddwyr y Gofrestr Dysgwyr yn:
www.learningrecordsservice.org.uk/documentlibrary/comms/User+Guide+to+the+Learner+Register

## Sut y mae'r ULN yn debyg i ddynodwyr eraill sydd yn cael eu defnyddio eisoes

Bydd y defnydd o ULN fel rhif ymgeisydd unigol – allai gymryd lle'r Dynodwr Ymgeisydd Unigryw (UCI) a ddefnyddir gan Gyrff Dyfarnu – yn symleiddio'r cofrestru ar gyfer arholiadau ac yn golygu y bydd yn bosibl rhannu gwybodaeth am gyrhaeddiad a dyfarniadau gyda sefydliadau addysgol eraill ac UCAS.

Mewn Addysg Uwch (HE), caiff yr ULN ei gasglu eisoes gan UCAS a'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, gan ei gwneud yn bosibl iddo gymryd lle gwahanol ddynodwyr a ddefnyddir gan y ddau sefydliad.

## Sut y bydd ULNs yn cael eu dyrannu i ddysgwyr?

Ni all dysgwyr gael ULN ar eu liwt eu hunain. Bydd rhaid i bob dysgwr fod ag ULN pan fydd yn cychwyn ar ei gwrs. Dim ond oddi ar Gofrestr Dysgwyr y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu drwy borth y Sefydliad y bydd yn bosib cael ULNs. Bydd rhaid i golegau, prifysgolion a darparwyr hyfforddiant eraill sicrhau nad oes yr un ULN wedi'i ddyrannu eisoes a chael ULNs oddi ar y Gofrestr Dysgwyr i'r dysgwyr hynny fydd heb gael yr un.

## Yr wybodaeth y bydd angen i'ch sefydliad ei darparu er mwyn cael ULN ar ran y dysgwr

Bydd y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu'n gofyn am wybodaeth sylfaenol am y dysgwr cyn cyflwyno ULN iddo:

- enw penodol
- enw teuluol
- dyddiad geni
- rhyw
- cod post

Dyma'r meysydd gorfodol, ond os oes gennych wybodaeth ychwanegol ar gael, megis enw teuluol blaenorol neu enw'ch ysgol pan yn 16 oed, byddai'n beth da rhoi'r wybodaeth honno yn ogystal.

Mae'r data hefyd yn galluogi i wybodaeth am gyrhaeddiad dysgu a (cymwysterau, dyfarniadau, credydau a hyfforddiant achrededig arall) gyd-fynd yn hollol â Chofnod Dysgu Personol dysgwr unigol.

Yn ogystal, pan fydd defnyddwyr sydd wedi cael caniatâd yn cofrestru dysgwyr i gael ULN o Gofrestr Dysgwyr yr LRS, dylai darparwyr dysgu fod wedi sicrhau'r canlynol:

- eich bod wedi gwirio hunaniaeth y dysgwyr hyn
- bod eich dysgwyr wedi deall eich Hysbysiad Preifatrwydd ynghylch rhannu gwybodaeth
- eich bod yn cynnwys cyfeiriadau e-bost personol gyda data arall a anfonir gennych at y Gwasanaeth
- eich bod yn casglu ac yn gwirio ULNs, neu'n cael ULN newydd gan ddefnyddio'r Gofrestr Dysgwyr a chyflwyno'r rhifau yn uniongyrchol i'r dysgwyr.



## Sut ydych chi'n gwirio hunaniaeth eich dysgwyr?

Mae gwirio hunaniaeth (ID) y dysgwyr yn rhan bwysig o'r broses o gael ULNs. Bydd dysgwr yn gallu cyrchu ei Gofnod Dysgu Personol unwaith y bydd wedi profi pwy ydyw a'i fod wedi derbyn ei ULN.

Lle bo modd, dylid gwirio ID dysgwyr hyd at 'Lefel 1' drwy wirio un o'r dulliau adnabod canlynol:

- Pasbort
- Cerdyn Yswiriant Gwladol
- Trwydded Yrru
- cerdyn ID neu ddull arall o brofi hunaniaeth cenedlaethol
- Cerdyn credyd neu ddebyd y banc

Fodd bynnag, ni ddylai prinder tystiolaeth ID ei atal rhag ymrestru. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan yr LRS.

## Beth yw Hysbysiad Preifatrwydd (neu Brosesu Teg)?


Testun safonol yw'r Hysbysiad Preifatrwydd sy'n rhoi gwybodaeth i ddysgwyr am y modd y cesglir gwybodaeth bersonol amdanynt a'r modd y posesir yr wybodaeth honno gan y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu, pa ddefnydd a wneir ohoni a phwy sy'n defnyddio'r wybodaeth. Gall dysgwyr ddewis peidio â rhannu'r data a gedwir yn eu Cofnod Dysgu Personol os dyna'u dymuniad.

Rhaid i ddarparwyr dysgu sicrhau bod eu dysgwyr yn gweld Hysbysiad Preifatrwydd fel rhan o'r broses ymrestru/arholi. Am fwy o ganllawiau ac enghreifftiau o'r testun y dylech ei ddefnyddio (yn Gymraeg ac yn Saesneg) trowch at wefan yr LRS.

## Ffyrdd gwahanol o gyflwyno data i'r Gofrestr Dysgwyr

Porth Sefydliad y Gofrestr Dysgwyr: defnyddir hwn i gael ULNs unigol. Os bydd gennych grŵp o hyd at 50 ULNs i'w sicrhau, dyma'r ffordd gyflymaf i'w cael nhw. Mae'r porth sefydliad hefyd yn cael ei ddefnyddio i olygu manylion ar ULN megis enw dewisol neu newid cod post, ac i ddatrys 'eithriadau.'

Proses Swp y Gofrestr Dysgwyr: defnyddir hon i sicrhau grwpiau o ULNs mewn sypiau o rhwng 50 a 5000. Cyflwynir y ffeiliau swp drwy'r porth sefydliad a rhaid cydymffurfio â Chanllaw Manyleb Rhagwyneb Swp yr LRS. Am fwy o wybodaeth trowch at Ganllaw Defnyddwyr y Gofrestr Dysgwyr a'r Gronfa Feddalwedd Swp, mae'r naill a'r llall ar gael ar wefan yr LRS. Caiff sypiau eu prosesu yn rheolaidd yn ystod y dydd hyd 18.00. Bydd sypiau a gyflwynir yn hwyrach na hyn yn cael eu prosesu dros nos. Bydd eithriadau yn cael eu cynhyrchu pan fydd y system yn cwestiynu'r wybodaeth a roddwyd.




Gwasanaethau Gwe'r Gofrestr Dysgwyr: dyma lle mae'r cyswllt rhwng eich meddalwedd Gwybodaeth Reoli (MI) a'r Gofrestr Dysgwyr ac mae'n adalw ULNs yn awtomatig os ydynt yn bod eisoes neu'n rhoi ULN newydd. Mae meddalwedd MI yn cynorthwyo i ddatrys eithriadau.

Efallai y bydd eich gwerthwr MIS neu gyflenwr meddalwedd eisoes yn darparu rhagwyneb gyda'r Gofrestr Dysgwyr er mwyn awtomeiddio'r broses.

## Beth yw 'eithriadau'?

Caiff eithriadau eu cynhyrchu gan y Gofrestr Dysgwyr os oes gan unigolion, er enghraifft, enwau tebyg ac yn rhannu'r un man a dyddiad geni, neu os caiff codau post anghywir eu bwydo i'r system. Er mwyn sicrhau ansawdd y data mae'n hanfodol bod ULNs yn cael eu rhoi i'r unigolion cywir yn erbyn y data demograffig cywir. Rhaid datrys eithriadau gan LRBs drwy borth Sefydliad y Gofrestr Dysgwyr. Ceir canllaw ar ddelio ag eithriadau yn y Gronfa Feddalwedd Swp sydd ar wefan yr LRS.

**Mae rhagor o wybodaeth ar gael fel a ganlyn:**

Learning Records Service

## Y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu

Rhif ffôn Llinell Gymorth: 0845 602 2589
Oriau agor: rhwng 08:00 a 20:00 Dydd Llun i Ddydd Sadwrn
E-bost: lrssupport@learningrecordsservice.org.uk
Gwefan: www.learningrecordsservice.org.uk

Canllaw Defnyddwyr y Gofrestr Dysgwyr: www.learningrecordsservice.org.uk/documentlibrary/comms/User+Guide+to+the+Learner+Register

Hysbysiadau Preifatrwydd yn Gymraeg ac yn Saesneg: www.learningrecordsservice.org.uk/documentlibrary/documents/Privacy+Notices+for+Wales

Y Gronfa Feddalwedd Swp: www.learningrecordsservice.org.uk/documentlibrary/documents/batchtoolkit

Cwestiynau a ofynnir yn aml: www.learningrecordsservice.org.uk/about/faqs

Y Gofrestr Darparwyr Dysgu: www.ukrlp.co.uk

Gwybodaeth ychwanegol a chanllawiau ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru: www.new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/allsectorpolicies/learningrecordsservice

Y Canllaw ar y defnydd o wasanaethau LRS wrth ddysgu troseddwyr: http://olass.skillsfundingagency.bis.gov.uk

Gallwch ddarganfod mwy am Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru drwy fynd i'r wefan: **www.cqfw.net**

CQFW
CREDIT & QUALIFICATIONS FRAMEWORK FOR WALES
FFRAMWAITH CREDYDAU A CHYMWYSTERAU CYMRU

## Rhestr termau

**CQFW**
*Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC)*

**DCELLS**
*Adran Plant, Addysg, a Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS)*

**FPN**
*Hysbysiad Prosesu Teg (neu Breifatrwydd)*

**HE**
*Addysg Uwch (AU)*

**HESA**
*Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (AYAU)*

**ID**
*Hunaniaeth/ Adnabyddiaeth*

**LLWR**
*Adroddiad Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru*

**LR**
*Y Gofrestr Dysgwyr*

**LRB**
*Y Corff Cofrestru Dysgwyr*

**LRS**
*Y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu*

**MI/MIS**
*Gwybodaeth Reoli/System(au) Gwybodaeth Reoli*

**NI Number**
*Rhif Yswiriant Gwladol*

**PLR**
*Y Cofnod Dysgu Personol*

**QCF**
*Fframwaith Cymwysterau a Chredydau*

**UCAS**
*Y sefydliad sy'n gyfrifol am reoli ceisiadau i raglenni gradd israddedig ym mhrifysgolion a cholegau'r DU*

**UCI**
*Dynodwr Unigryw'r Ymgeisydd*

**UKPRN**
*Cyfeirnod Darparwr y DU*

**UKRLP**
*Cofrestr Darparwyr Dysgu y DU (y cyfeirir ati hefyd fel Cofrestr Darparwr Dysgu)*

**UKVQRP**
*Rhaglen Ddiwygio Cymwysterau Galwedigaethol y DU*

**ULN**
*Rhif Unigryw'r Dysgwr (RhUD)*

**WBL**
*Dysgu Seiliedig ar Waith*

## Nodiadau: